Cofrestrfa Tir
Cyfarwyddyd Ymarfer 37
Mawrth 2007

Deddf Cofrestru Tir 2002
Cwmpas y cyfarwyddyd hwn
Mae'r cyfarwyddyd hwn yn trafod sefyllfaoedd lle bydd rhywun wedi gwrthwynebu cofrestriad neu mewn anghydfod. Mae'n cwmpasu swyddogaethau'r Gofrestrfa Tir, Dyfarnwr Cofrestrfa Tir EM a'r llys. Mae'r cyfarwyddyd yn anelu at drawsgludwyr a dylech ddehongli cyfeiriadau atoch 'chi' felly.

Gwrthwynebiadau ac anghydfodau – Cyfarwyddyd i arfer a threfnau'r Gofrestrfa Tir

Diweddariad – Mae'r cyfarwyddyd hwn yn disodli argraffiad Mawrth 2003. Newidiwyd adran 5 o ganlyniad i adolygu'n harfer ar ddatgelu dogfennau.

Manylion cysylltu

Ar gyfer ymholiadau cwsmeriaid ac i gael y cyhoeddiad hwn ar ffurf wahanol cysylltwch â'n Cefnogaeth i Gwsmeriaid ar customersupport@landregistry.gsi.gov.uk neu ffoniwch 0844 892 1122 am wasanaeth Cymraeg, neu 0844 892 1111 am wasanaeth Saesneg, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm.
Cost galwadau yw 3c y funud o linellau tir BT. Gall cost galwadau symudol a rhwydweithiau eraill amrywio. Nid yw'r Gofrestrfa Tir yn derbyn unrhyw gyllid o'r galwadau hyn.

I gael copi o hwn a'n holl gyfarwyddiadau eraill, yn ddi-dâl:
- darllenwch/llwythwch y cyfarwyddiadau i lawr yn Gymraeg a Saesneg o www.cofrestrfatir.gov.uk
- cysylltwch â'n Cefnogaeth i Gwsmeriaid.

1 Byrfoddau a thermau

Yn y cyfarwyddyd hwn:
'DCT 1925' yw Deddf Cofrestru Tir 1925, fel y'i newidiwyd;
'DCT 2002' yw Deddf Cofrestru Tir 2002;
'RhCT 2003' yw Rheolau Cofrestru Tir 2003;
'rheolau cyfeirio at y dyfarnwr' yw Rheolau Cofrestru Tir (Cyfeirio at Ddyfarnwr Cofrestrfa Tir EM) 2003;
'rheolau'r dyfarnwr' yw Rheolau Dyfarnwr Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi (Arfer a Threfn) 2003;
'y dyfarnwr' yw Dyfarnwr Cofrestrfa Tir EM.

2 Cefndir

Efallai na fydd y Gofrestrfa Tir yn gallu cwblhau cais oherwydd bod rhywun wedi gwrthwynebu. Gyda dau eithriad, mae adran 73(1), DCT 2002 yn rhoi hawl i unrhyw un wrthwynebu cais. Rhaid gwrthwynebu yn ysgrifenedig a rhaid amlinellu sail y gwrthwynebiad (rheol 19, RhCT 2003).

Os yw'r cofrestrydd yn fodlon bod y gwrthwynebiad yn ddi-sail, ni fydd effaith ar y cais (adran 73(6), DCT 2002). Fel arall, rhaid i'r cofrestrydd roi rhybudd o'r gwrthwynebiad i'r ceisydd ac nid oes modd cwblhau'r cais nes bydd y gwrthwynebiad wedi cael ei derfynu (adran 73(5), DCT 2002).

Mae nifer o ffyrdd o derfynu gwrthwynebiad. Gall pawb ddod i gytundeb ar sut i fwrw ymlaen gyda'r cais. Fel arall, gall un ochr neu'r llall dynnu ei chais neu wrthwynebiad yn ôl. Os na fydd hynny'n digwydd, nid oes gan y cofrestrydd unrhyw ddewis ond cyfeirio'r mater at y dyfarnwr.

Mae hon yn swydd newydd a grëwyd gan DCT 2002 ac un o swyddogaethau'r dyfarnwr yw datrys anghydfodau sy'n deillio o wrthwynebiadau. Caiff y dyfarnwr ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor ac mae'n hollol annibynnol ar y Gofrestrfa Tir. Unwaith y cyfeiriwyd mater ato, bydd rheolau a threfnau'r dyfarnwr ei hun yn ei reoli.

Fel arfer, bydd y dyfarnwr yn cynnal gwrandawiad, ond mae ganddo'r pŵer i gyfarwyddo un ochr i ddechrau achos llys yn lle hynny (adran 110(1), DCT 2002).

Dan rai amgylchiadau, sy'n cael eu dangos yn rheolau'r dyfarnwr, gall y dyfarnwr hefyd derfynu anghydfod heb gynnal gwrandawiad.

Mae'r cyfarwyddyd ymarfer hwn yn trafod y cyfnod rhwng derbyn gwrthwynebiad a chyfeirio anghydfod at y dyfarnwr.

Mae'n berthnasol dim ond i anghydfodau sy'n deillio o wrthwynebiadau a wnaed ar neu ar ôl 13 Hydref 2003, lle nad oes unrhyw wrthwynebiad arall arfaethedig a wnaed cyn y dyddiad hwnnw. (Nid yw'r dyddiad pryd y gwnaed y cais yn berthnasol i'r dibenion hyn ac mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol os yw'r gwrthwynebiad yn berthnasol i gais a wnaed cyn 13 Hydref 2003 i ddiarddel rhybuddiad.)

Bydd y mater yn dal i fod dan reolaeth DCT 1925, Rheolau Cofrestru Tir (Trefn Wrandawiadau) 2000 a Rheoliadau Cofrestru Tir (Cynnal Busnes) 2000 os:

— gwnaed y gwrthwynebiad cyn 13 Hydref 2003
— oes gwrthwynebiad blaenorol a wnaed cyn y dyddiad hwnnw
— yw'r gwrthwynebiad yn berthnasol i gais i ddiarddel rhybuddiad lle cyflwynwyd rhybudd o'r cais i'r rhybuddiwr cyn y dyddiad hwnnw.

Mae hyn yn golygu, a na all pawb ddatrys y mater trwy gytundeb, y bydd yn cael ei gyfeirio at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol neu un o'i ddirprwyon. Bydd manylion y trefnau perthnasol ar gael lle bo gofyn.

3 Y gwrthwynebiad

Pan fyddwn yn derbyn gwrthwynebiad byddwn yn ystyried yn gyntaf a oes gan y gwrthwynebiad unrhyw obaith o lwyddo. Os nad oes ganddo obaith o lwyddo, pa un ai yn ôl y ffeithiau neu'r gyfraith, bydd y gwrthwynebiad yn cael ei ddiddymu. Mae hyn oherwydd nad yw gwrthwynebiad sy'n ddi-sail yn effeithio ar gais (adran 73(6), DCT 2002).

Unwaith y byddwn wedi gweld nad yw gwrthwynebiad yn ddi-sail, byddwn yn rhoi manylion y gwrthwynebiad i'r ceisydd.

Yna mae pum dewisiad ar gael i'r partïon.

— Gall y ceisydd dynnu'r cais yn ôl.
— Gall y gwrthwynebydd dynnu'r gwrthwynebiad yn ôl.
— Gall y partïon benderfynu cyd-drafod i weld a allant ddod i gytundeb ar sut i drin y gwrthwynebiad a sut i gwblhau'r cais.
— Gall un o'r partïon benderfynu dechrau achos llys – gwelwch adran *7 Achos llys*.
— Os nad oes unrhyw obaith y daw'r partïon i gytundeb, rhaid cyfeirio'r mater at y dyfarnwr.

4 Cyfle i gyd-drafod

Caiff mwyafrif llethol yr anghydfodau eu datrys trwy gytundeb, ac mae'r Gofrestrfa Tir yn cydnabod hyn. Ond rhaid i ni hefyd gofio ein hymrwymiad i gyfeirio mater i'r dyfarnwr os yw'r partïon yn methu datrys eu hanghydfod trwy gytundeb. Dywed adran 73(7), DCT 2002 bod y Gofrestrfa Tir yn gorfod cyfeirio unrhyw achos lle 'nad oes modd ei ddatrys trwy gytuno ar wrthwynebiad'.

Felly, byddwn yn gofyn i bawb lenwi a dychwelyd ffurflen syml os ydynt am gael amser i gyd-drafod. Byddwn hefyd yn gweld beth yw hanes y cyd-drafodaethau ar gyfnodau rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal yn weithredol. Bydd y partïon yn gorfod cyflwyno tystiolaeth o hyn neu, fel arall, byddwn yn gorfod derbyn nad oes modd i'r partïon ddod i gytundeb ac na fydd gennym unrhyw ddewis ond cyfeirio'r mater at y dyfarnwr ar unwaith.

Bydd y ffurflen ddechreuol yn gofyn i'r partïon:

— ddatgan eu bod am gyd-drafod
— cadarnhau eu bod yn credu y gall fod modd dod i gytundeb.

Rhaid i bawb gadarnhau hyn; fel arall bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y dyfarnwr ar unwaith. Mae angen cydweithrediad pawb er mwyn dod i drefniant.

Bydd gofyn i'r partïon lenwi ffurflenni pellach ar gyfnodau rheolaidd, i sicrhau bod pawb yn dal i gredu fod modd dod i gytundeb. Bydd gofyn iddynt hefyd gyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r datganiadau hyn, fel manylion unrhyw gynigion a wnaed i ddod i gytundeb a'r ymateb i'r cynigion hynny, gan gynnwys copïau o unrhyw ohebiaeth berthnasol.

Lluniwyd y ffurflenni hyn a'r dystiolaeth ategol i alluogi'r cofrestrydd benderfynu a oes raid cyfeirio'r achos at y dyfarnwr. Os bydd pawb yn dychwelyd y ffurflenni'n cadarnhau eu bod yn dal eisiau cyd-drafod a'u bod yn dal i ystyried fod modd dod i gytundeb yna, ar yr amod ein bod wedi gweld tystiolaeth i gefnogi'r datganiadau hynny, caiff y partïon ganiatâd i barhau gyda'u cyd-drafodaethau. Fel y bydd amser yn dirwyn, byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y cyd-drafodaethau'n symud ymlaen. Heb y dystiolaeth honno, byddwn yn methu oedi'r cyfeirio at y dyfarnwr, gan gofio ymrwymiadau'r Gofrestrfa Tir dan adran 73(7), DCT 2002.

5 Swyddogaeth y Gofrestrfa Tir

Os ystyriwn ei bod yn briodol, byddwn yn mynegi ein barn ar rinweddau cymharol achos pawb pan fyddwn yn anfon y ffurflen gyntaf i'w llenwi. Gobeithiwn y bydd ein profiad a'n sefyllfa ddiduedd yn ddefnyddiol, ond mae croeso i'r partïon dderbyn, gwrthbrofi neu anwybyddu'r hyn a ddywedwn.

Mater pwysig arall i'w gofio yw na fydd y farn a fynegwyd gan unrhyw aelod o'r Gofrestrfa Tir yn gyfrwymol ar y dyfarnwr, os bydd yn datrys y mater maes o law. Ni fyddant yn gyfrwymol chwaith ar farnwr pe bai un o'r partïon yn dewis dechrau achos llys neu wneud hynny yn dilyn cyfarwyddyd y dyfarnwr. Fel arfer ni fydd y Gofrestrfa Tir yn anfon copïau o unrhyw ohebiaeth o'r fath at y dyfarnwr. Ni fydd ar gael i'r dyfarnwr na'r llysoedd os na chaiff ei chyflwyno fel tystiolaeth yn y gwrandawiad. Mae rheolau arbennig o ran tystiolaeth sy'n berthnasol yn y llysoedd ac mewn gwrandawiadau ger bron y dyfarnwr, ac y bydd angen i'r partïon eu hystyried os bydd y mater yn cyrraedd y cam hwnnw.

Mae'n bwysig bod pawb yn ymwybodol o ddadleuon a thystiolaeth pawb arall. O ganlyniad, ni all y Gofrestrfa Tir gynnal unrhyw drafodaethau cyfrinachol. Gellir datgelu unrhyw ohebiaeth neu ddogfennau cefnogol i'r partïon eraill hyd yn oed os ydynt wedi eu nodi'n 'gyfrinachol'. Lle bo'n amlwg nad

yw parti'n ymwybodol o'r polisi hwn ac wedi darparu gohebiaeth neu ddogfen gefnogol 'gyfrinachol', bydd y Gofrestrfa Tir yn dychwelyd yr ohebiaeth neu ddogfen ac yn gofyn i'r parti ail-gyflwyno dogfen nad yw'n gyfrinachol.
Weithiau bydd y partïon mewn anghydfod yn ei chael yn anodd i siarad yn uniongyrchol â'i gilydd, ond eu bod yn dal i ystyried fod modd dod i gytundeb, ac y bydd hynny'n well na gwrandawiad barnwrol. Mae'r Gofrestrfa Tir bob amser yn barod i chwarae rhan yn y cyd-drafodaethau, os bydd hyn o gymorth. Ni fyddwn yn ochri, nac yn barnu na phenderfynu ar eirwiredd y dystiolaeth a gyflwynwyd; mater i'r dyfarnwr neu'r llysoedd yw penderfynu hynny. Fodd bynnag, dylai'r partïon sylweddoli y bydd gennym ein barn ein hunain ar y dadleuon, all olygu ein bod yn cytuno â dadleuon un ochr yn hytrach na'r llall.

6 Crynodeb yr achos
Bydd rhai achosion lle nad oes modd i'r partïon ddod i gytundeb. Rhaid cyfeirio'r achosion hyn at y dyfarnwr, fydd yn penderfynu pa un ai i wrando'r mater ei hun neu gyfarwyddo un o'r partïon i ddechrau achos llys.

Bydd y Gofrestrfa Tir yn cyfeirio'r achosion hyn trwy rybudd ffurfiol ynghyd â chrynodeb achos.
Diben crynodeb yr achos yw rhoi manylion cryno i'r dyfarnwr o'r mater sy'n cael ei gyfeirio ac i alluogi iddo wneud penderfyniad dechreuol pa un ai i wrando'r achos ei hun, neu i gyfarwyddo un o'r partïon i ddechrau achos llys. Dan reolau'r dyfarnwr, sy'n pennu'r trefnau fydd yn berthnasol unwaith y caiff y mater ei gyfeirio, mae modd rhoi cyfle i'r partïon gyflwyno achosion i'r dyfarnwr os bydd yn ystyried y byddai'n briodol i gyfarwyddo un o'r partïon i ddechrau achos llys.

Bydd crynodeb yr achos yn ymgorffori'r wybodaeth ganlynol (rheol 3(2) o reolau cyfeirio at y dyfarnwr):
— enwau a chyfeiriadau'r partïon
— manylion unrhyw gynrychiolwyr cyfreithiol neu gynrychiolwyr eraill
— crynodeb o'r ffeithiau craidd
— manylion y cais
— manylion y gwrthwynebiad
— rhestr o unrhyw gopïau o ddogfennau ynghlwm
— unrhyw beth arall y bydd y cofrestrydd yn ystyried yn briodol.

Mae enghraifft o grynodeb achos yn adran *12 Atodiad*.

Bydd gofyn i'r partïon hefyd roi cyfeiriad o fewn Cymru a Lloegr at ddiben cyfathrebu gyda swyddfa'r dyfarnwr. Gofynnir am hyn rhag ofn bod y partïon wedi rhoi cyfeiriad sydd oddi allan i awdurdod y Gofrestrfa Tir. (Mae hyn yn oddefedig dan reol 198, RhCT 2003.) Gall hyn fod yn rif blwch cyfnewidfa ddogfennau, ar yr amod bod y dyfarnwr yn rhan o'r gyfundrefn hon.

Bydd y partïon yn cael clywed pan fydd y cofrestrydd yn bwriadu cyfeirio'r achos at y dyfarnwr. Yr adeg honno byddant yn derbyn copi o grynodeb yr achos, ac yn cael cyfle i roi sylwadau arno os byddant am wneud hynny (rheol 3(1)(c) rheolau cyfeirio at y dyfarnwr). Ni fydd crynodeb yr achos yn amlinellu dadleuon y partïon na manylion y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd hynny, ond bydd yn grynodeb o'r ffeithiau perthnasol. Bydd y cyfle i roi sylwadau yn galluogi cywiro unrhyw wallau ffeithiol cyn anfon y crynodeb at y dyfarnwr.

Bydd y cofrestrydd yn ystyried unrhyw sylwadau a wnaed a bydd yn gwneud pa newidiadau bynnag i grynodeb yr achos ag a wêl yn briodol. Yna bydd yn anfon rhybudd ffurfiol at y dyfarnwr yn ei hysbysu y cyfeiriwyd yr achos hwn. Daw crynodeb yr achos (yn ymgorffori unrhyw newidiadau a wnaed gan y cofrestrydd) gyda'r rhybudd a bydd copïau o unrhyw ddogfennau yn cael eu rhestru yng nghrynodeb yr achos. Bydd y partïon hefyd yn derbyn rhybudd ffurfiol yn eu hysbysu y cyfeiriwyd yr achos, ynghyd â chopi o grynodeb yr achos fel yr anfonwyd at y dyfarnwr. Ni fydd y partïon yn cael copïau o'r dogfennau gan y byddant eisoes yn dal y gwreiddiol neu gopïau ohonynt ar eu ffeiliau.

7 Achos llys
Efallai y bydd un o'r partïon eisiau dechrau achos llys. Sut fydd yn cyd-fynd â'r trefnau hyn?

Fel yr ydym wedi dangos, nid oes gan y Gofrestrfa Tir unrhyw ddewis ond cyfeirio anghydfod sy'n deillio o wrthwynebiad at y dyfarnwr. Cyn gynted ag y gwelwn fod un o'r partïon wedi dechrau achos llys, byddwn yn trin yr achos fel mater nad oes modd ei ddatrys trwy gytundeb. Byddwn yn cwblhau crynodeb yr achos ac yn cyfeirio'r mater yn ffurfiol at y dyfarnwr. Mae'n debygol y bydd y dyfarnwr yn gohirio'r achos ger ei fron i aros am ganlyniad yr achos llys.

8 Costau
Caiff y pwnc hwn ei drafod yng Nghyfarwyddyd Ymarfer *38 – Costau*. Os nad ydych wedi derbyn copi, cofiwch gysylltu â ni a byddwn yn anfon un atoch.

9 Gwallau ar y gofrestr
Gall anghydfod godi pan fydd cais yn cael ei wneud i gywiro gwall ar y gofrestr a rhywun yn cyflwyno gwrthwynebiad. Os digwyddodd hyn, mae'r trefnau a nodwyd yn y cyfarwyddyd hwn yn dal yn berthnasol. Fodd bynnag, efallai y bydd y partïon yn gallu hawlio iawndal dan DCT 2002. Caiff y pwnc hwn ei drafod yn ein Cyfarwyddyd Ymarfer *39 – Cywiro ac indemniad*. Os byddwch yn meddwl y gall hyn fod yn berthnasol i chi, cofiwch gysylltu â ni i ofyn am gopi. Efallai y bydd iawndal yn talu costau a threuliau, ond bydd angen i chi ystyried a ddylech gael cydsyniad y cofrestrydd cyn mynd i gostau neu dreuliau o'r fath. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer *38 – Costau* yn egluro'r drefn.

10 Ar ôl penderfyniad y dyfarnwr
Bydd penderfyniad y dyfarnwr, pa un ai'n dilyn gwrandawiad neu beidio, yn cael ei gyflwyno mewn gorchymyn ffurfiol. Weithiau bydd hyn yn gorchymyn i'r Gofrestrfa Tir gymryd camau penodedig, pryd y bydd y dyfarnwr yn cyflwyno copi o'r gorchymyn i'r Gofrestrfa Tir. Fel arall, dylai'r partïon anfon copi o'r gorchymyn i'r Gofrestrfa Tir, a byddwn yn eich hysbysu sut y bwriadwn ddelio â'r cais a'r gwrthwynebiad yng ngoleuni gorchymyn y dyfarnwr.

11 Ymholiadau a sylwadau
Os oes gennych bryder arbennig sydd heb gael sylw yn y cyfarwyddyd hwn, cofiwch gysylltu â'r Gofrestrfa Tir cyn y trafodiad –

gwelwch y panel *Manylion cysylltu* ar glawr blaen y cyfarwyddyd hwn. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch ein cyfarwyddiadau, anfonwch hwy i:

Grŵp Newid Cofrestru
Cofrestrfa Tir
Lincoln's Inn Fields
Llundain
WC2A 3PH
(DX 1098 London/
Chancery Lane WC2).
Gallwch gael rhagor o gopïau o hwn a'n holl gyfarwyddiadau'n ddi-dâl o unrhyw un o swyddfeydd y Gofrestrfa Tir neu mae croeso i chi eu llwytho i lawr yn Gymraeg a Saesneg o'n gwefan.

12 Atodiad

Crynodeb Achos Cofrestrfa Tir EM

Daw'r crynodeb achos hwn gyda rhybudd i Ddyfarnwr Cofrestrfa Tir EM dan reol 5 Rheolau Cofrestru Tir (Cyfeirio at Ddyfarnwr Cofrestrfa Tir EM) 2003.

Rhif(au) teitl	AB12345 ac AB7890
Eiddo	123 a 125 Steep Hill, New Town, Midshire
Ceisydd	Anne Paula Plicant
Cyfeiriad y ceisydd	123 Steep Hill, New Town, Midshire
Cynrychiolydd cyfreithiol neu gynrychiolydd arall y ceisydd	Hollys, 789 High Street, Down Town, Midshire Cyf: P/OC/12
Gwrthwynebydd	Oliver Brian Jector
Cyfeiriad y gwrthwynebydd	125 Steep Hill, New Town, Midshire
Cynrychiolydd cyfreithiol neu gynrychiolydd arall y gwrthwynebydd	Ivys, 321 Lower Road, Uptown, Midshire Cyf: JEC/XZ/541
Crynodeb o'r ffeithiau craidd	Y ceisydd yw perchennog cofrestredig rhif teitl AB12345. Trwy drawsgludiad dyddiedig 24 Mehefin 1999 rhwng (1) Daisy May Jones a (2) y ceisydd, cafodd y ceisydd y tir sy'n ffurfio trawsgludiad dyddiedig 1 Ionawr 1956 rhwng (1) Alice Eleanor Thomas a (2) John Mark Smith. Cofrestrwyd y tir hwn ar 1 Gorffennaf 1999 a dyrannwyd rhif teitl AB12345 iddo. Nid oedd y tir gydag ymyl coch ar y cynllun atodol yn y cynllun teitl ac ar hyn o bryd mae'n gofrestredig dan deitl rhif AB7890. Y gwrthwynebydd yw perchennog cofrestredig teitl rhif AB7890.
Manylion y cais	Mae'r ceisydd wedi gwneud cais i newid cofrestri teitl rhif AB12345 a deitl rhif AB7890 dan baragraff 5 Atodlen 4 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Mae'n hawlio y dylai cynllun teitl teitl rhif AB12345 gynnwys y tir gydag ymyl coch, oherwydd ei fod yn rhan o'r tir a gafwyd ganddi yn 1999.
Manylion y gwrthwynebiad	Cyflwynwyd rhybudd o'r cais i'r gwrthwynebydd fel perchennog cofrestredig teitl rhif AB7890. Mae'r gwrthwynebydd wedi gwrthwynebu newid y ddau rif teitl ar y sail ei fod wedi meddiannu'r tir gydag ymyl coch fel rhan o'i ardd am y 15 mlynedd diwethaf.
Gwybodaeth arall	Dim
Copïau o'r dogfennau ynghlwm	1. cais ar ffurflen AP1 dyddiedig 13 Hydref 2003 2. llythyr oddi wrth Hollys i'r Gofrestrfa Tir dyddiedig 13 Hydref 2003 3. cynlluniau teitl teitlau rhif AB12345 ac AB7890 4. cynllun yn dangos y tir gydag ymyl coch 5. rhybudd a gyflwynwyd i'r gwrthwynebydd dyddiedig 20 Hydref 2003 6. llythyr oddi wrth y gwrthwynebydd i'r Gofrestrfa Tir dyddiedig 6 Tachwedd 2003 7. trawsgludiad dyddiedig 1 Ionawr 1956 8. trawsgludiad dyddiedig 24 Mehefin 1999

Llofnodwyd: _____

Cofrestrydd Tir ar ran y Prif Gofrestrydd Tir

Dyddiedig: _____

Polisi ymgynghorol y Gofrestrfa Tir

Rydym yn cynnig cyngor i'n cwsmeriaid trwy gyfrwng ein cyhoeddiadau a gwasanaethau ymholiadau a thrwy'r gwaith beunyddiol o brosesu ceisiadau.

Rydym yn darparu gwybodaeth ffeithiol, gan gynnwys copïau swyddogol o gofrestri, cynlluniau teitl a dogfennau, chwiliadau a manylion am ein ffurflenni a ffïoedd.

Rydym yn cynnig cyngor ynglŷn â'n trefnau sy'n esbonio sut mae'r system o gofrestru tir yn gweithio a sut i gyflwyno ceisiadau sy'n gywir. Mae hyn yn cynnwys:
— cyngor cyn cyflwyno cais, lle mae'r ceisydd yn gofyn amdano
— lle bo cais yn ddiffygiol, cyngor ynglŷn â natur y broblem a beth y gellir ei wneud, os rhywbeth, i'w hunioni
— gwasanaeth cymeradwyo cynlluniau ystad a dogfennau cofrestru tir penodol eraill.

Mae'r cyngor y gallwn ei ddarparu yn gyfyngedig. Ni fyddwn yn darparu cyngor cyfreithiol.

Mae hyn yn golygu:
— na fyddwn yn cymeradwyo'r dystiolaeth i'w chyflwyno i gefnogi cais i gofrestru cyn inni dderbyn y cais
— na fyddwn yn cynnig cyngor ynglŷn â pha gamau y dylech eu cymryd oni bai ei fod yn berthnasol i'n trefnau
— na fyddwn yn cymeradwyo ymgynghorydd proffesiynol ond gallwn esbonio sut y gallwch ddod o hyd i un.

Rydym yn darparu cyngor am geisiadau go iawn yn unig, nid am amgylchiadau damcaniaethol. Ni fyddwn yn mynegi barn am faterion lle bo'r gyfraith yn gymhleth neu'n aneglur oni bai bod y cwestiwn yn berthnasol i gais i gofrestru sy'n cael ei brosesu.

Wrth ddarparu'r wybodaeth ffeithiol hon a chyngor ynglŷn â'n trefnau byddwn yn:
— ymddwyn yn ddiduedd
— cydnabod y gall ein geiriau effeithio ar eraill
— osgoi creu gwrthdaro rhwng buddion

Peter Collis
Prif Gofrestrydd Tir

© Hawlfraint y Goron 2007 Cofrestrfa Tir
Nid yw i gael ei atgynhyrchu heb ganiatâd Yr Uned Ffurflenni, Cofrestrfa Tir (yn ôl awdurdod dirprwyedig Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi)
Lincoln's Inn Fields, Llundain WC2A 3PH

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan:
Cofrestrfa Tir, Cyhoeddi Corfforaethol y Brif Swyddfa,
32 Lincoln's Inn Fields, Llundain WC2A 3PH

RHAGORIAETH MEWN
GWASANAETHAU CWSMERIAID